**Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Welsh Parliament | Research Service**

# Caniatáu priodasau sy'n cynnwys 5 o bobl yn ystod COVID-19 yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 17 Gorffennaf 2020
Petitions Committee | 17 July 2020

**Cyfeirnod:** RS20/12961-5

**Rhif y ddeiseb**: P-05-976

**Teitl y ddeiseb**: Caniatáu priodasau sy'n cynnwys 5 o bobl (cofrestrydd/y pâr/2 dyst) yn ystod COVID 19 yng Nghymru

**Geiriad y ddeiseb:** Er bod partïon priodas, yn ddealladwy, yn cael eu gohirio am resymau cadw pellter cymdeithasol, mae gallu priodi'n gyfreithlon yn bwysig i lawer o bobl, ac yn bosibl heb risg sylweddol o ledaenu COVID-19.

Mae priodas yn darparu hawliau cyfreithiol o ran etifeddiaeth, plant, penderfyniadau meddygol perthnasau agosaf, a thai. Hefyd, oherwydd argyhoeddiadau ysbrydol a moesol ynghylch cyd-fyw cyn priodi, mae llawer o gyplau sydd wedi dyweddïo yn cael eu gorfodi i fyw ar wahân wrth i ddyddiad eu priodas basio heibio.

Byddai rhoi'r cyfle i gyplau roi'r hawliau hyn i'r naill a'r llall yn eu helpu yn ystod yr amser hwn sy'n llawn straen.

Mae Newyddion y BBC wedi bod yn adrodd am gynlluniau o ran caniatáu priodasau bach yn yr awyr agored yng Ngogledd Iwerddon o 8 Mehefin, 2020 ymlaen.

https://www.bbc.co.uk/news/uk-northern-ireland-52809997

# 1. Camau gan Lywodraeth Cymru

Ar 19 Mehefin 2020, cyhoeddodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS, y mesurau diweddaraf i lacio'r cyfyngiadau ar symud ac ymgynnull yng Nghymru a gyflwynwyd o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020, a osodwyd gerbron Senedd Cymru ar 22 Mehefin 2020, yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r rheoliadau diweddaraf, fel y'u disgrifir yn y Nodiadau Esboniadol, yn **diddymu cyfyngiadau ar briodasau a seremonïau partneriaeth sifil a gynhelir**, yn amodol ar ofynion i gadw pellter corfforol.

Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau, fel y'u diwygiwyd, yn cyfeirio at briodasau a seremonïau partneriaeth sifil yng nghyd-destun 'addoldai' yn unig. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar ailagor addoldai yn datgan:

> Nid yw'r term "mannau addoli" yn cael ei ddiffinio yn y Rheoliadau. At ddibenion y cyngor hwn, mae'r term yn cynnwys man cyfyngedig neu gaeedig y tu mewn i adeiladau neu yn yr awyr agored, a gaiff eu defnyddio ar gyfer seremonïau crefyddol, cyd-weddïo ac addoli neu gynulliadau tebyg, megis eglwys, gurdwara, mosg, teml, synagog, neuadd eglwys, weddïo neu gyfarfod.

Nid yw'r rheoliadau na'r canllawiau yn rhoi eglurder ynghylch statws swyddfeydd cofrestru, er bod enghreifftiau bellach o rai awdurdodau lleol yn cynnig gwasanaethau cofrestru ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil yng Nghymru.

### Y Rheoliadau

Gwnaeth Rheoliadau Diogelu Iechyd (cyfyngiadau coronafeirws) (Cymru) 2020 ddarpariaeth ar gyfer cyfyngiadau symud i unigolion ac ar gynulliadau yn ystod yr argyfwng. Roedd hefyd yn darparu ar gyfer cyfyngiadau ar fannau addoli, busnesau, a gwasanaethau penodol eraill. O ganlyniad, nid oedd yn bosibl gweinyddu priodasau neu seremonïau partneriaeth sifil yng Nghymru.

Roedd y set flaenorol o Reoliadau, Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020, a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2020, yn cynnwys eithriadau yn y darpariaethau sy'n gosod cyfyngiadau ar briodasau a

phartneriaethau sifil, ac yn caniatáu iddynt gael eu cynnal pan oedd gan un o'r cwpl salwch terfynol.

Mae'r diwygiadau diweddaraf i'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliad 7, 8 ac 8B o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 (fel y'u diwygiwyd):

- Diwygiwyd Rheoliad 7 i ganiatáu i fannau addoli, yn amodol ar gydymffurfio â gofynion o ran cadw pellter corfforol o 2 fetr rhwng pob person, agor ar gyfer **gweinyddu priodasau neu ffurfio partneriaethau sifil**;
- Mae Rheoliad 8 bellach yn caniatáu, fel **esgus rhesymol**, i unigolion adael y man lle y maent yn byw i fynd i weinyddiad priodas neu seremoni partneriaeth sifil;
- Cafodd Rheoliad 8B ei fewnosod gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020. Llaciodd y rheoliad hwn rai o'r cyfyngiadau ar ymgynnull yn yr awyr agored gyda phersonau eraill, a oedd yn cynnwys caniatáu ymgynnull ar gyfer angladd. Mae'r Rheoliadau diweddaraf (Rhif 6) yn diwygio'r eithriadau i gynnwys **mynd i briodas neu seremoni partneriaeth sifil**.

Ceir rhagor o wybodaeth am y rheoliadau ar wefan Llywodraeth Cymru.

Bydd yr adolygiad nesaf o'r rheolau yn cael ei gynnal ar 09 Gorffennaf 2020.

# 2. Cefndir

Cafodd yr holl briodasau a seremonïau partneriaeth sifil eu hatal o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. Roedd y cyfyngiadau ar yr hawl i gyfarfod a’r cyfyngiadau symud, ynghyd â’r penderfyniad i gau lleoliadau a gwasanaethau sy’n gysylltiedig â gweinyddu priodasau, yn golygu nad oedd modd cynnal seremonïau yng Nghymru mwyach.

Ar 23 Mawrth 2020, cyhoeddodd Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru, "ni ddylai digwyddiadau cymdeithasol, gan gynnwys priodasau, gwasanaethau bedydd a seremonïau eraill, yn ogystal â chyfarfodydd o fwy na dau o bobl yn gyhoeddus, ddigwydd o gwbl." Yr unig eithriad i hyn oedd y gydnabyddiaeth o'r angen i fynd i angladdau mewn rhai amgylchiadau. Roedd gan aelodau agos o'r teulu yr hawl, felly, i fynd i angladdau. Fodd bynnag, gwnaeth y rhan fwyaf o awdurdodau lleol bennu uchafswm ar nifer y bobl fyddai’n cael bod yn bresennol

mewn angladd (5 neu 10 fel arfer). Gosodwyd yr uchafsymiau hyn er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r gweinyddwyr, ac i leihau lledaeniad y feirws.

Fodd bynnag, y gofyniad cyfreithiol allweddol ar gyfer angladdau, fel y nodwyd yn y canllawiau, yw 'y **cymerir pob cam rhesymol** i sicrhau y cedwir **pellter o 2 fetr** rhwng y rheini sy'n mynd. Mae hyn yn golygu pellter o 2 fetr rhwng aelodau o aelwydydd gwahanol, nid o angenrheidrwydd rhwng pob person unigol.'

Serch hynny, er y gwnaed eithriadau o'r fath ar gyfer angladdau, nid oedd y rhain yn cynnwys priodasau na seremonïau partneriaeth sifil. At hynny, ers pasio Deddf y Coronafeirws 2020, mae'r mwyafrif llethol o'r busnesau a lleoliadau trwyddedig a allai fod wedi cynnal priodas wedi gorfod cau. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau cymeradwy fel gwestai, yn ogystal â swyddfeydd cofrestru. Gwaharddwyd pob priodas a gwasanaeth partneriaeth sifil gan awdurdodau lleol nes y nodwyd yn wahanol.

Ar 29 Mai 2020, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru fod rhai cyfyngiadau wedi'u llacio yng Nghymru, ond nid oedd hyn yn ymestyn i gynnwys priodasau a seremonïau partneriaeth sifil. Yr unig eithriad i'r cyfyngiad hwn oedd pan oedd gan un o'r cwpl salwch terfynol.

### Gwasanaethau cofrestru

Darperir gwasanaethau cofrestru gan awdurdodau lleol, a fydd yn dehongli ac yn gweithredu'r Rheoliadau a'r canllawiau yn eu hardal ac yn eu gwasanaethau. Mae pob awdurdod lleol wedi newid neu atal gwasanaethau cofrestru dros dro at ddibenion cynnal priodasau a seremonïau partneriaeth sifil. Fodd bynnag, ceir arwyddion bod rhai awdurdodau bellach yn darparu gwasanaethau cofrestru, a chafwyd adroddiad gan BBC Wales (1 Gorffennaf 2020) ynglŷn â phriodas cwpl yng ngogledd Cymru lle roedd cofrestrydd yn bresennol ar gyfer y briodas mewn eglwys.

Mewn erthygl ddiweddar arall ar BBC Wales (16 Mehefin 2020), nodwyd bod gan y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru offer diogelu personol erbyn hyn i'w defnyddio gan gofrestryddion, a bod ystafelloedd seremoni wedi eu haildrefnu i ganiatáu ar gyfer cadw pellter cymdeithasol. Nodwyd hefyd bod rhai cynghorau yn ystyried y posibilrwydd o ffrydio seremonïau ar-lein yn y dyfodol.

# 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Ar 2 Mehefin 2020, cyflwynodd Nick Ramsay AS gwestiwn ysgrifenedig at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: 'A wnaiff y Gweinidog egluro ar ba sail y barnwyd ei bod yn dderbyniol i angladdau barhau gyda niferoedd cyfyngedig yn bresennol, o safbwynt iechyd cyhoeddus, a pham na ddefnyddiwyd yr un canllawiau ar gyfer seremonïau priodas?'

Nid yw'r Gweinidog wedi ateb eto.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.